
Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr

CANLLAW

# Cynllun yr Archwiliadau Adnabod Cerbydau (VIC)

## Adnabod Cerbydau a Throseddu



*Achub bywydau, ffyrdd mwy diogel, lleihau troseddu, amddiffyn yr amgylchedd*

## Cyflwyniad

Mae troseddau cerbyd yn broblem ddifrifol. Amcangyfrifir eu bod yn costio £3 biliwn y flwyddyn i'r economi ac maent yn effeithio'n uniongyrchol ar fodurwyr drwy godi premiymau yswiriant.

Un agwedd ar droseddau cerbyd yw cyfnewid ceir. Arfer yw "cyfnewid" sy'n twyllo pobl fod ceir wedi'u dwyn yn geir a ddifrodwyd mewn damwain wedi'u hatgyweirio. Un o ganlyniadau hyn yw bod aelodau diniwed o'r cyhoedd yn gallu canfod y gwerthwyd car iddynt y mae'n ymddangos yn ddiweddarach ei fod wedi'i ddwyn. Cyflwynwyd yr Archwiliad Adnabod Cerbyd (VIC) ar 7 Ebrill 2003 ac mae'n ei gwneud yn anoddach "cyfnewid" ceir.

O'r dyddiad hwn mae'n rhaid rhoi gwybod am geir wedi'u difrodi i'r Asiantaeth Trwyddedu Gyrwyr a Cherbydau (DVLA) os yw cost eu hatgyweirio'n fwy na'u gwerth cyn y ddamwain. Fel arfer, bydd hyn yn digwydd os bydd Yswiriwr yn penderfynu nad yw car yn werth dim, ar ôl i beiriannydd asesu'r difrod. Mae'r ceir hyn yn cael marciwr VIC, sef nodyn a ychwanegir at gofnod cyfrifiadurol y DVLA a thra bydd yn parhau ar y cofnod, ni fydd y DVLA yn cyhoeddi Tystysgrif Gofrestru newydd (V5C, a elwir yn gyffredin yn llyfr log) na nodyn atgoffa Trwydded Cerbyd (V11) ar gyfer y car. Bydd y marciwr VIC yn cael ei ddileu pan fydd y car yn pasio VIC. Golyga hyn fod yr Asiantaeth Gwasanaethau Cerbydau a Gweithredwyr (VOSA) wedi cadarnhau ei bod yn adnabod y car. Bydd y DVLA wedyn yn gallu cyhoeddi V5C newydd.

**Cofiwch:** Os byddwch yn prynu car mae Yswiriwr wedi penderfynu nad yw'n werth dim, mae'n debygol y bydd angen VIC arno er bod difrod y ddamwain yn ymddangos yn ddibwys efallai. Gallwch gadarnhau bod gan y car farciwr VIC, neu holi a oes VIC blaenorol eisoes wedi'i gynnal, drwy ffonio VOSA ar **0300 123 9000**. Ni all VOSA gynnal VIC oni bai bod marciwr VIC wedi'i osod. Os nad yw hyn wedi digwydd, neu os oes VIC wedi'i gynnal eisoes, nid oes angen i VOSA gynnal VIC ac nid yw'n gallu cynnal VIC.

## Pryd mae angen VIC?

Os bu eich car mewn damwain ac os yw'r Yswiriwr yn rhoi gwybod wedyn i'r DVLA nad yw'n werth dim, ond eich bod yn penderfynu cadw'r car i'w atgyweirio eich hun, gallai gael marciwr VIC o hyd. Dylai fod gennych y V5C o hyd a gallwch yrru'r car yn gyfreithlon ar yr amod ei fod wedi'i drethu, bod ganddo MOT dilys, ei fod yn addas i'r ffordd fawr a bod gennych yswiriant priodol. Fodd bynnag, os oes marciwr VIC wedi'i osod, ni fydd y DVLA yn cyhoeddi V11 ichi na V5C newydd pe byddai angen un newydd arnoch. Gallai hyn fod yn anghyfleus iawn i chi. Mae VOSA yn eich cynghori i ddarganfod a oes marciwr VIC wedi'i osod drwy ffonio VOSA ar **0300 123 9000**. Os oes marciwr VIC wedi'i osod, ymgeisiwch wedyn am ddyddiad addas i'r VIC gael ei gynnal.

**Sylwer:** Os byddwch yn prynu car heb V5C neu gar y mae angen VIC arno, efallai na fyddwch yn gallu cofrestru na thrwyddedu'r car nes bod y car wedi pasio VIC.

## Sut ydw i'n ymgeisio am VIC?

- Cyn cyflwyno ffurflen gais mae'n rhaid ichi gadarnhau bod mar ciwr VIC wedi'i osod drwy gysylltu â VOSA ar **0300 123 9000**. Ni all VOSA gynnal VIC oni bai bod marciwr VIC wedi'i osod.
- Yn dilyn hyn, mae'n rhaid ichi lenwi ffurflen gais VIC 1 a naill ai ei hanfon at VOSA gyda'r ffi neu nodi ar y ffurflen yr hoffech dalu drwy gerdyn credyd / debyd neu drwy gyfrif VOSA a dalir ymlaen llaw.
- Mae ffurflen gais VIC1 ar gael o **www.gov.uk** a gellir ei chyflwyno ar-lein neu ei hargraffu a'i hanfon drwy ffacs neu'r post. Mae'r ffurflen gais yn egluro i ble y dylech anfon eich cais. Os hoffech gael ffurflen gais drwy'r post, cysylltwch â VOSA ar **0300 123 9000**.
- Mae manylion ffioedd ar gael o **www.gov.uk** neu drwy gysylltu â VOSA ar **0300 123 9000.**
- Byddwch chi'n cael cadarnhad o ddyddiad ac amser yr apwyntiad pan fy dd VOSA wedi prosesu eich ffurflen gais.

## A allaf yrru'r car i safle'r VIC?

Gallwch yrru i safle'r VIC ar yr amod:

- Bod gan y car dystysgrif MOT ddilys (os yw'n berthnasol)
- Bod y car mewn cyflwr addas i'r ffordd fawr
- Eich bod yn arddangos

Nid oes angen treth ffordd arnoch i yrru'n syth i safle VIC neu'n syth o safle VIC, ond dylech gofio ei bod yn drosedd cadw neu ddefnyddio car ar ffyrdd cyhoeddus os nad yw wedi'i drethu na'i gofrestru. Os yw'r car yn cael ei yrru i safle'r VIC, sicrhewch hefyd fod y sawl sy'n gyrru'r gar wedi'i yswirio i wneud hynny. Ni fydd VOSA yn cynnal VIC oni ellir gyrru'r car dan ei bwer ei hun. Fodd bynnag, os na ellir ei yrru i safle'r VIC am ryw reswm arall, gellir ei gludo, ond mae'n rhaid gwneud trefniadau ymlaen llaw gyda Rheolwr Safle'r VIC. Caniatewch amser ychwanegol os yw'r car am gyrraedd drwy gludwr, er mwyn iddo gael ei ddadlwytho'n ddiogel, cyn dechrau'r apwyntiad.

## Beth ddylwn ei wneud os nad oes platiau rhif wedi'u gosod ar y car a bod angen imi ei yrru i'r VIC?

Cysylltwch â VOSA ar **0300 123 9000** ac efallai byddant yn gallu eich helpu i gael platiau rhif. Bydd angen iddynt gadarnhau:

- Bod marciwr VIC wedi'i osod ar gyfer y car.
- Mai chi yw Ceidwad Cofrestredig y car.

## Beth sy'n digwydd yn safle'r VIC?

Bydd angen ichi adrodd i'r dderbynfa ar yr amser penodedig neu cyn hynny, gyda'ch llythyr apwyntiad ac unrhyw dystiolaeth i gefnogi eich cais e.e. derbynebau prynu / atgyweirio. Bydd y VIC yn cael ei gynnal gan Arolygydd hyfforddedig. Mae'n cymryd rhyw 20 munud. Ni fyddwch chi'n cael gwylio'r VIC. Mae'n rhaid hefyd ichi gydymffurfio â'r holl ofynion Iechyd a Diogelwch ar y safle ac unrhyw gyfarwyddiadau a roir i chi gan staff VOSA. Gall safleoedd VIC fod yn fannau prysur, gyda cherbydau'n symud mewn mannau cyfyng. O ganlyniad, nid yw VOSA yn caniatáu anifeiliaid na phlant

o dan 16 ar y safle. Hefyd, gofynnir ichi gyfyngu ar nifer yr oedolion sy'n dod gyda chi.

Yn ystod y VIC gellir archwilio difrod damwain y car ond dim ond at ddibenion adnabod y gwneir hyn; nid yw'n asesu ansawdd yr atgyweirio, felly dylech geisio barn arbenigol annibynnol i ganfod a yw'r car yn addas i'r ffordd fawr. Mae'n rhaid atgyweirio'r car i safon ddigon uchel i nodi ei fod am gael ei roi'n ôl ar y ffordd. Os na, gallai VOSA wrthod cynnal y VIC. Wrth gynnal y VIC, os bydd yr arolygydd yn sylwi ar ddiffyg difrifol a fyddai'n gwneud y car yn beryglus i'w yrru, bydd yn cyhoeddi hysbysiad gwahardd. Bydd hwn yn golygu nad oes modd gyrru'r car nes ei wneud yn addas i'r ffordd fawr, a nes bod y gwaharddiad wedi'i dynnu i ffwrdd.

## Os yw VIC yn canfod bod eich car yn dderbyniol

Os yw VIC yn canfod bod eich car yn dderbyniol, bydd cofnod y DVLA yn cael ei ddiweddaru o ganlyniad. Mae hyn yn digwydd fel arfer ymhen 48 awr.

Byddwch chi'n cael Tystysgrif Pasio VIC (VIC20) ac wedyn gallwch ymgeisio i'r DVLA am V5C gan ddefnyddio ffurflen gais V62. Mae angen ffi (am fanylion cysylltwch â'r DVLA ar **0870 240 0010**) ond os penderfynwyd nad oedd eich car yn werth dim o dan gategori C rydych wedi'ch esgusodi rhag talu. Mae'n rhaid ichi gadarnhau'r categori yn y blwch a ddarperir ar y ffurflen V62.

Os ydych eisoes wedi cyflwyno V62 i'r DVLA cyn cynnal y VIC, buasech wedi cael llythyr yn rhoi gwybod ichi fod angen VIC ar eich cerbyd. Ar ôl VIC llwyddiannus, dylid dychwelyd y llythyr hwn at y DVLA ynghyd â dyddiad pasio'r VIC. Bydd y DVLA wedyn yn trefnu cyhoeddi V5C.

Hefyd, os ydych yn bwriadu trwyddedu'r cerbyd yn syth yn eich Swyddfa DVLA Leol, gallant ofyn i weld y VIC20. Os byddwch yn colli'r VIC20 neu os nad ydych wedi cael y VIC20 bydd cofnod y DVLA yn cael ei ddiweddaru'n awtomatig beth bynnag.

Ar ôl ei gyhoeddi bydd y V5C newydd yn nodi'n barhaol fod y car wedi cael ei archwiliad adnabod.

Os ydych yn ystyried prynu car sydd eisoes â VIC20 ond sydd heb V5C, byddem yn eich cynghori'n gryf i sicrhau'n gyntaf fod y VIC20 yn ddilys drwy gysylltu â VOSA ar **0300 123 9000**.

## Os yw VIC yn canfod bod eich car yn annerbyniol

Os bydd eich car yn methu plesio'r archwilydd yn ystod y VIC, cyflwynir rhybudd methiant VIC (VIC 21) i chwi a fydd yn rhoi rhesymau methiant. Os bydd y car yn "methu" oherwydd ni fydd yn gytun â chofnod cerbyd y DVLA, bydd VOSA yn ymchwilio ac yn cywiro unrhyw anghysondebau sydd. Cyfeiriwyd achosion eraill efallai i'r Heddlu am ymchwiliad ymhellach. Nid yw hyn o reidrwydd yn golygu, bod y car wedi'i ddwyn; mae'n rhan o'r broses i geisio ac i gadarnhau adnabod y car. Os mae adnabod y car, ar ôl ymchwiliadau ymhellach, wedi'i gadarnhau'n foddhaol, bydd VOSA yn cywiro'r canlyniad "methiant" i ganlyniad "pasio".

Bydd staff lleol VOSA yn ceisio egluro, hyd ag y mae modd, y rhesymau methiant, ond am wybodaeth bellach, cysylltwch â VOSA ar **0300 123 9000**.

**Sylwer:** Proses unwaith yn unig yw'r VIC ac os cyflwynir rhybudd methiant i'r car, ni fydd VOSA yn derbyn mwy o ffurflenni cais VIC am y car hwnnw. Fodd bynnag, mae'r ymgeisydd gwreiddiol yn gallu apelio yn erbyn penderfyniad methiant (gweler isod).

## Apeliadau VIC

Os nad ydych yn cytuno â chanlyniad y VIC gallwch wneud apêl i VOSA. Rhaid ymostwng apeliadau ar ffurflen VIC17 ynghyd â'r ffi iawn. (Ffi gyfredol VIC) Am wybodaeth bellach ynglyn â threfn apeliadau'r VIC, cysylltwch â VOSA.

**Am fwy o wybodaeth ynglyn â'r VIC, cysylltwch â VOSA os gwelwch yn dda ar** 0300 123 9000 **neu ymwelwch:**
www.gov.uk

VOSA/VIC/2318G/APR12/WELSH

## Ewch i'n gwefannau:

Ar gyfer cwsmeriad masnachol a modurwyr preifat
**www.gov.uk**

Gwybodaeth gorfforaethol
**www.dft.gov.uk/vosa**

## Cysylltwch â ni:

E- bost
**enquiries@vosa.gov.uk**

Rhif Ffôn Cenedlaethol
**0300 123 9000***

Dydd Llun i Ddydd Gwener - rhwng
7.30am a 6.00pm (oriau gwaith arferol)

**Codir cyfradd isel am alwadau a ddarperir gan BT. Gall cyfraddau darparwyr eraill amrywio.*